# HOCI CYMRU

Adroddiad Blynyddol
2023–2024


HOCKEY WALES
HOCI CYMRU
WAL






GÔL!



# CYNNWYS

**Adolygiad 12 mis y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr . . . . 4**

**YMGYSYLLTU . . . . 7**

Trosolwg . . . . 8

Prosiect Treftadaeth Cenedlaethol Hoci Cymru . . . . 9

Dadansoddiad o Glybiau . . . . 13

Dadansoddiad o Gyfleusterau . . . . 14

Dadansoddiad o Ysgolion . . . . 15

Gwersylloedd Hoci . . . . 16

**CYFLAWNI POTENSIAL . . . . 17**

Uchafbwyntiau Cyflawni Potensial . . . . 18

Hoci Prydain Fawr . . . . 20

Llwybr . . . . 22

Grŵpiau Oedran Cenedlaethol . . . . 24

Staff Cefnogi Perfformiad . . . . 26

Hyfforddwyr . . . . 27

**AMGYLCHOEDD LLOEDOL . . . . 28**

Cymdeithas Dyfarnwyr Hoci Cymru . . . . 29

Penodiadau Dyfarnwyr a Swyddogion . . . . 30

**CYFRANOGIAD . . . . 32**

Meistri Cymru Dynion: 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024 . . . . 33

Adroddiad Meistri Merched Cymru Tymor 2023 – 2024 . . . . 37

Cystadlaethau 2023/2024 . . . . 39

Prif Ystadegau Cystadlaethau 2023/2024 . . . . 40

**PARTNERIAETHAU . . . . 41**

Partneriaid . . . . 42

Cyfeillion Hoci Cymru . . . . 43

# ADOLYGIAD 12 MIS Y CADEIRYDD A'R PRIF WEITHREDWR

Am flwyddyn! Diolch o galon i'r holl glybiau, gwirfoddolwyr, chwaraewyr, hyfforddwyr, dyfarnwyr, swyddogion ac aelodau pwyllgor sy'n gweithio'n ddiflino i'w gwneud hi'n bosib chwarae hoci drwy gydol y flwyddyn. Er gwaethaf yr heriau, mae eich ymroddiad wedi bod yn anhygoel ac rydyn ni wir yn gwerthfawrogi eich gwaith caled a'ch hoffter o'n camp.

Ar lawr gwlad, mae'n galonogol gweld bod nifer y timau hoci i oedolion wedi aros yn gyson ers y llynedd. Mae hoci wedi dangos cadernid eithriadol yn y cyfnod ar ôl Covid, gan gymharu'n ffafriol â champau tîm eraill. Mae hoci ieuenctid yn dal yn gadarn. Rydyn ni'n gweld clybiau'n adrodd lefelau cyfranogiad uchel ar draws pob lefel. Rydyn ni hefyd yn falch iawn o weld cydraddoldeb da rhwng y rhywiau yn ein camp, er y pryderon ynglŷn â phoblogrwydd cynyddol pêl droed a chriced merched. Mae ein hagwedd yn dal yn gadarn ac yn gynhwysol: cyhyd â bod hoci'n parhau i gynnig profiadau gwerth chweil ar hyd a lled y wlad, dim ond cynyddu fydd y cyfleoedd ar gyfer twf a llwyddiant.

Eleni, rydyn ni wedi gweld cyffro a chefnogaeth enfawr i dimau cenedlaethol Cymru, yn enwedig dros gyfnod y Pasg yn 2024. Fis Awst diwethaf, enillodd y tîm merched fedal efydd ym Mhencampwriaeth EwroHoci II ym Mhrâg, ac yn rownd agoriadol EwroHoci, cipiodd y tîm dynion gêm gyfartal yn erbyn yr Almaen – camp aruthrol o ystyried mai ni oedd yr unig dîm cwbl amatur yn y gystadleuaeth! Mae'r cydweithio rhwng y staff a'r chwaraewyr yn codi'r ysbryd ac rydyn ni'n edrych ymlaen yn arw at weld beth fyddant yn gallu ei gyflawni yn y dyfodol.

Gan aros ar y thema ryngwladol, mae wedi bod yn flwyddyn wych i athletwyr sy'n cynrychioli Prydain. Mae 10 athletwr yn rhan o system Prydain ar hyn o bryd – pump ar lefel oedolion a phump ar y Rhaglen Datblygu Elitaidd. Mae'n wych gweld Cymru'n cystadlu gyda'r goreuon. Llongyfarchiadau gwresog i bawb. Gobeithio bydd rheswm dathlu unwaith eto pan fydd carfannau'r Gemau Olympaidd yn cael eu cyhoeddi fis Mehefin.

O ran y clybiau, roedd y gynghrair dan do wedi elwa ar ymdrech ragorol gan Darren Morgan-Lock a gwirfoddolwyr, gan baratoi'r ffordd ar gyfer cystadleuaeth fwy a hyd yn oed yn well y tymor nesaf. Mae tîm dynion Caerdydd a'r Met yn dal i berfformio'n rhagorol. Fe wnaethon nhw gadw eu lle yn Uwch Gynghrair Lloegr – camp a hanner i'r clwb ac i hoci dynion yng Nghymru.



**Bill Riley**
Chair

Roedd penwythnos y rowndiau terfynol yn Abertawe ym mis Mai yn llawn talent. Roedd amrywiaeth eang o glybiau wedi cymryd rhan yn rowndiau terfynol y timau oedolion, ac roedd rowndiau terfynol y timau iau wedi dangos cadernid a thalent ragorol y chwaraewyr ifanc. Cystadleuaeth y clybiau Meistri gafodd y gorau o'r tywydd. Braf oedd gweld gwên ar wynebau'r cyfranogwyr lu.

Sôn am y clybiau, dyma air arbennig o glod i Jacob Draper, y Cymro cyntaf i ennill EHL, gan wneud hynny gyda'i dîm o'r Iseldiroedd. Doedd ennill y fedal aur ddim yn ddigon iddo – fo oedd chwaraewr y gêm hefyd! Llongyfarchiadau hefyd i James Carson a Leah Wilkinson am ennill medal yn EHL.

Ym mis Awst 2023, lansiwyd aelodaeth ddigidol gennym drwy Sport 80. Er yr heriau disgwyliedig, mae bron i 40% o'r aelodau wedi cofrestru i adnewyddu'n awtomatig, gan symleiddio'r broses ar gyfer yr haf. Ar ben y cynnydd hwn, bydd dewisiadau cymorth ychwanegol i glybiau dros y misoedd nesaf i leihau'r baich gweinyddol.

Mae hoci'r Meistri yn parhau i ffynnu yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Cafodd tri o'r timau lwyddiant yn nhwrnamaint dan do Ewrop yn ddiweddar.

Roedd newidiadau ar Fwrdd Hoci Cymru hefyd. Rydyn ni'n ffarwelio â Conrad Funnell, Derrick Heaton-Rue, Rebecca Knight, a Robert Croft. Diolch iddynt am eu gwasanaeth hir a'u cyfraniadau. Mae'n bleser gennym groesawu Anthony O'Regan a Debbie Wakeford, sydd wedi ymuno â ni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Diolch o waelod calon i'r holl staff, i'r Hockey Makers, ac i bawb sy'n gysylltiedig â Hoci Cymru. 'Fydden ni ddim yn gallu llwyddo heb eich arweiniad a'ch ymroddiad chi. Pob hwyl i Chris Brewer ar ei ymddeoliad. Gadawodd Chris y sefydliad ym mis Gorffennaf 2023 yn dilyn 23 o flynyddoedd yma yn Hoci Cymru, ac er ei fod yn dal i gyfrannu mewn amrywiaeth o swyddogaethau gwirfoddol, mae'r staff yma yn gweld ei golli'n fawr.

I gloi, diolch enfawr i'r holl chwaraewyr, hyfforddwyr, dyfarnwyr, swyddogion a gwirfoddolwyr sy'n gwneud hoci'n gamp mor arbennig. Eich ymroddiad a'ch gwaith caled chi sy'n helpu hoci i ffynnu. Gobeithio eich bod chi wedi mwynhau darllen am y cyfraniad hollbwysig rydych chi'n ei wneud i'r byd hoci – camp tîm ym mhob ffordd. Diolch am bopeth!



**Paul Whapham**
Chief Executive Officer

# STAFF HOCI CYMRU 2023-2024

## 2023

| PRIF WEITHREDWR |
|---|
| Ria Burrage-Male (Gadawodd 23.03.23) |

| PERFFORMIAD | DATBLYGIAD | BUSNES |
|---|---|---|
| Kevin Johnson | Gareth Evans (Gadawodd 31.07.23) | Chris Brewer (Gadawodd 31.07.23) |
| Steph Bullen | Amanda Roberts | Jane Price |
| Ella Jackson | Sam Barrett (Gadawodd 20.04.23) | Gareth Kear (Gadawodd 31.03.23) |
| Walid Abdo (Gadawodd 31.03.23) | Chloe Jordan (Gadawodd 03.05.23) | |
| Tim Hoare (Gadawodd 31.03.23) | Katharine Craig (Gadawodd 21.05.23) | |
| Sydney Davies | Alice Gregory | |

## 2024

| PRIF WEITHREDWR |
|---|
| Paul Whapham (13.03.23) |

| PERFFORMIAD | DATBLYGIAD | BUSNES |
|---|---|---|
| Kevin Johnson | Joe Gage (11.09.23) | Jane Price |
| Steph Bullen | Amanda Roberts | |
| Ella Jackson | Harriet Barker (01.06.23) | |
| Sydney Davies | Cerys Studt (22.01.24) | |
| | Chelsea Jenkins (22.01.24) | |
| | Alice Gregory | |
| | Beth Collier (01.06.23) | |



# YMGYSYLLTU




# TROSOLWG

Mae'r tymor diwethaf wedi bod yn llawn cyffro, yn enwedig dros y chwe mis diwethaf. Rydyn ni wedi cynyddu ein gwaith ymgysylltu â'r gymuned yn sylweddol, yn ogystal â sicrhau bywiogrwydd ein clybiau. Drwy benodi Cyfarwyddwr Datblygu a Chyfranogiad newydd, rydyn ni wedi cymryd camau rhagweithiol i wella trefn lywodraethu, cynaliadwyedd a phroses recriwtio Hoci Cymru a'i randdeiliaid.

Ar ben hynny, mae ein tîm wedi tyfu wedi i ni recriwtio tri Swyddog Datblygu Hoci, wedi'u lleoli'n strategol yn y Gogledd, y Gorllewin a'r Dwyrain. Eu cenhadaeth yw cynyddu ein presenoldeb mewn ysgolion a chlybiau, tanio angerdd dros hoci ar draws eu rhanbarth, a rhoi ffyn yn nwylo rhagor o bobl.

O dan arweiniad ein Rheolwr Datblygu Pobl a Digwyddiadau Cystadleuol, rydyn ni wedi creu 25 o gystadlaethau a digwyddiadau ar hyd a lled y wlad, sydd wedi ennyn cyfranogiad ysgolion a chlybiau. Mae'r ymdrech ar y cyd wedi cyfoethogi'r profiad hoci ac wedi meithrin ymdeimlad o gyfeillgarwch a chystadleuaeth iach yn ein cymuned ni.

Yn ogystal â hynny, mae ein Rheolwr Prosiectau wedi arwain Prosiect Treftadaeth llwyddiannus, sy'n talu teyrnged i hanes y rhai sydd wedi cynrychioli Cymru yn llawn balchder yn rhyngwladol. Gan ymestyn yr holl ffordd yn ôl i'r 1880au, mae'r fenter hon wedi galluogi chwaraewyr i gael eu capiau haeddiannol, gan ddiogelu hanes cyfoethog hoci am genedlaethau i ddod. Ar ben hynny, mae'r ymdrechion i adfywio'r rhaglen Llysgenhadon Ifanc wedi denu edmygedd gwledydd eraill yn Ewrop ac wedi gosod meincnod i fentrau datblygu ieuenctid y gamp.







# PROSIECT TREFTADAETH CENEDLAETHOL HOCI CYMRU

**Hoffai Hoci Cymru ddiolch i'r Gronfa Treftadaeth Genedlaethol am ei holl gymorth a'i chyfraniadau at ein Prosiect Treftadaeth, sydd wedi ein galluogi i ail-fyw ein hanes!**

## Cofnodion Athletwyr

Yn hanesyddol, doedd cofnodion ddim yn cael eu cadw i olrhain yr athletwyr sydd wedi cynrychioli Cymru, a chanlyniadau'r gemau. Mae Phil Bailey a Steve Knight, dau o'n gwirfoddolwyr gwych, wedi bod yn ymchwilio i'r cofnodion hyn am saith mlynedd bellach ac mae eu cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn aruthrol. Rydyn ni nawr yn credu ein bod wedi llenwi'r bylchau ar gyfer y dynion ar wahân i 2002-2007. Ond mae mwy i'w wneud ar gyfer y merched. Mae'r bylchau hyn yn cael eu llenwi gan ein cyn-athletwyr anhygoel ni sy'n casglu eu cofnodion at ei gilydd ac yn gweithio gyda'n haneswyr ni i'w cadarnhau. Diolch i chi am eich cymorth hyd yma. Rydyn ni'n edrych ymlaen yn arw at gael yr holl gofnodion yn eu lle er mwyn i ni eu rhannu â'r byd.

## Digwyddiadau Dathlu Capiau

Wrth i ni gadarnhau cofnodion y chwaraewyr a gweld pwy sydd wedi chwarae mewn gêm yn dyfarnu capiau, fe allwn ni ddechrau cyflwyno eu cap rhyngwladol cyntaf am gynrychioli Cymru i'n cyn-athletwyr ni nawr. Fe wnaethon ni groesawu 50 o gyn-athletwyr i Erddi Sophia ym mis Awst, ac yno fe gawson nhw eu cap cyntaf o'r diwedd, yng nghwmni ffrindiau, teulu a'u cyd-chwaraewyr. Roedd yn gyfle da i ddal i fyny â hen ffrindiau a rhannu straeon am eu hamser yn chwarae dros Gymru. Byddwn yn cynnal ein digwyddiad capiau nesaf yn nes ymlaen eleni. Os oes unrhyw gyn-athletwyr heb gael unrhyw ohebiaeth am hyn eto, cysylltwch â ni drwy'r ffurflen ar y dudalen Treftadaeth Hoci ar ein gwefan ni - https://www.hockeywales.org.uk/hockey-heritage

## Clybiau

Dyma ail flwyddyn ein Prosiect Treftadaeth Cenedlaethol ni ac rydyn ni am ddechrau casglu rhagor o hanes a straeon y clybiau, a'u dangos ar ein platfformau ni i godi ymwybyddiaeth o hanes hoci yng Nghymru dros y blynyddoedd. Felly byddem wrth ein bodd yn clywed hanes eich clwb chi! Cysylltwch heddiw drwy'r ffurflen yma!

https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.id=WQqVTf8SAk6jJp-J72B6Qair1pA2N6gxNgX-TZIh58r0xUMVVaVE00Ukh-BWTZDNEpJWElVNzE1NDU3Sy4u

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth
Made possible with Heritage Fund




### Digideiddio

Byddwn yn gweithio gyda'r Amgueddfa Hoci a Chasgliad y Werin Cymru i ddigideiddio'r holl eitemau cofiadwy sydd gennym ni yma yn swyddfa Hoci Cymru. Rydyn ni wedi dechrau paratoi'r eitemau ar gyfer digideiddio a byddant ar gael i bawb eu gweld yn gynnar yn y flwyddyn newydd, felly cadwch lygad ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol!

THE HOCKEY museum

Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

### Ysgolion

Diolch i'r 26 o athrawon ar y gweithgor ysgolion sydd wedi helpu i ddatblygu'r Adnoddau Treftadaeth Trawsgwricwlaidd i Ysgolion hyd yma. Mae'n bleser gennym ddweud bod yr adnoddau bron yn barod a byddant ar gael y flwyddyn nesaf. I athrawon ac ysgolion sy'n dymuno bod ymysg y cyntaf i glywed am yr adnoddau hyn pan fyddant yn barod, gallwch chi gofrestru nawr! https://www.hockeywales.org.uk/hockey-heritage

### Gwybodaeth arall

Wrth i ni ailgysylltu â'n cyn-athletwyr a'u teuluoedd, rydyn ni wedi gallu casglu straeon ac eitemau cofiadwy i gofnodi ein hanes a'u rhannu fel rhan o'r prosiect yma. Roedd cyffro mawr pan wnaeth perthynas i Richard B Jones, a oedd wedi chwarae i Gymru yn erbyn Iwerddon yn 1895 – gêm gyntaf Cymru erioed – gysylltu â ni gyda llun o'r cap gafodd ei roi i chwaraewyr y gêm honno!






# Hockey YOUNG AMBASSADORS

Eleni oedd 12fed mlynedd Rhaglen Llysgenhadon Ifanc Hoci Cymru, rhaglen sydd â'i gwaddol yn perthyn i Gemau Olympaidd Llundain yn 2012. At ei gilydd, mae 116 o Lysgenhadon Ifanc yn gwirfoddoli fel rhan o'r rhaglen, a hynny mewn amrywiaeth o swyddogaethau fel hyfforddi, dyfarnu, codi arian a chynllunio digwyddiadau clybiau ar hyd a lled Cymru, gan wneud yn siŵr bod hoci'n rhan fawr o'u cymuned leol.

## Nifer y Llysgenhadon Ifanc:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **116** O LYSGENHADON IFANC AR Y RHAGLEN | **88** O FERCHED | **27** O FECHGYN | **1** YN ANNEUAIDD |

## Nifer y Llysgenhadon Ifanc ar bob lefel:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **12** PLATINWM | **22** GOLD | **33** ARIAN | **49** EFYDD |











Gyrfaoedd ac addysg oedd thema'r rhaglen eleni. Felly fe wnaethon ni ofyn i'n Llysgenhadon Ifanc pa ddiwydiannau sydd o ddiddordeb iddyn nhw a ble fydden nhw'n hoffi gweithio yn y dyfodol efallai. Wedyn fe wnaethon ni ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddarparu gweminarau ar-lein misol gydag arbenigwyr yn y meysydd roedden nhw wedi'u nodi. Roedd hyn yn gyfle i'r Llysgenhadon Ifanc ddysgu gan unigolion sydd wedi gweithio yn y meysydd hyn, a'u holi.

Dyma'r diwydiannau gafodd sylw yn y rhaglen eleni:

- **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**
- **Rheoli Digwyddiadau**
- **Darlledu a Newyddiaduraeth**
- **Gwyddoniaeth Chwaraeon**

Mae'r rhaglen yn rhedeg o fis Medi i fis Awst, felly mae'r sesiynau canlynol eto i ddod:

- Y Gyfraith
- Rheoli ym maes Chwaraeon
- Addysgu
- Meddyginiaeth

Yn ogystal â'r gweminarau, daeth 31 o Lysgenhadon Ifanc i Gaerdydd ym mis Chwefror ar gyfer y Gynhadledd Llysgenhadon Ifanc flynyddol. Rhoddwyd sylw i dechnegau cyfweliad, cyflwyniadau ac ysgrifennu ceisiadau, cyn sesiwn ar ffurf Dragon's Den lle gweithiodd y Llysgenhadon mewn grwpiau i ddatblygu menter i roi ffyn mewn dwylo ledled Cymru.

THyd yma, mae'r Llysgenhadon Ifanc wedi cyfrannu mwy na 900 o oriau gwirfoddol yn eu hysgolion, eu clybiau ac mewn digwyddiadau Hoci Cymru. Diolch i'r holl Lysgenhadon, rhieni, clybiau ac ysgolion sydd wedi cefnogi'r rhaglen eleni, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at weld beth fyddan nhw'n ei gyflawni y flwyddyn nesaf!


## Aelodaeth



**Merched**
**1525**
**CHWARAEWYR DROS 18 OED**
**Dynion**
**1086**
**CHWARAEWYR DROS 18 OED**



**Merched**
**23**
**HYFFORDDWYR DROS 18 OED**
**Dynion**
**32**
**HYFFORDDWYR DROS 18 OED**



**Merched**
**164**
**TEULU HOCI**
**Dynion**
**68**
**TEULU HOCI**



**Merched**
**2241**
**CHWARAEWYR IAU**
**(29 OHONYNT YN HYFFORDDWYR IAU A 2 YN DDYFARNWYR)**
**Dynion**
**808**
**CHWARAEWYR IAU**



**Merched**
**2**
**HYFFORDDWYR IAU**




**Merched**
**227**
**CHWARAEWYR PRIFYSGOL**
**Dynion**
**147**
**CHWARAEWYR PRIFYSGOL**



**Merched**
**22**
**DYFARNWYR**
**Dynion**
**46**
**DYFARNWYR**

# DADANSODDIAD O GLYBIAU

Mae aelodaeth y clybiau wedi aros yn gadarn ac yn gyson o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, a hynny o'n cyfranogwyr iau ni i rai dros 18 oed yng nghampau'r dynion a'r merched. Rydyn ni'n arbennig o falch o ddweud bod ein haelodaeth Teulu Hoci wedi tyfu, yn enwedig ymysg merched. Ar ben hynny, rydyn ni wedi gweld nifer yr hyfforddwyr mewn clybiau yn tyfu'n sylweddol. Mae'n galonogol gweld rhagor o chwaraewyr dros 18 oed yn cyflawni swyddogaethau hyfforddi a dyfarnu yn ystod y tymor, sy'n dangos eu hymroddiad i'r gamp a'u hangerdd drosti.



# DADANSODDIAD O GYFLEUSTERAU

Rydym wedi bod yn llwyddiannus wrth gyfrannu at ddatblygu safleoedd drwy Gronfa Cydweithredu Chwaraeon Cymru, trwy partneru efo'r Cyngor RCT i'r prosiect Ysgol Uwchradd Hawthorn. Mae ein cymorth ariannol o dros £150,000 wedi bod yn allweddol i symud y datblygiad hwn yn ei flaen, gan sicrhau bod y seilwaith angenrheidiol yn ei le i gefnogi twf chwaraeon yn y rhanbarth. Bydd y bartneriaeth yma yn darparu perthynas cryfach rhwng yr ysgol ar gymuned, gan hyrwyddo ymgysylltu a chyfranogiad gwell efo chwaraeon.

Yn ychwanegol at hyn, i gefnogi Ysgol Godre'r Berwyn yn Bala, y clwb hoci a chlybiau eraill y gymuned, rydym wedi cynnig £200,000 i'r ailddatblygiad cae artificial. Bydd y buddsoddiad yma yn ehangu'r cyfleusterau mewn Gogledd Cymru, gan gynnig gwell amodau hyfforddi a chwarae i athletwyr yr ardal. Rydym yn disgwyl i'r cae newydd ddenu pobl newydd i'r gem, cynyddu diddordeb lleol o hoci, a darparu cae haen uchaf i gystadleuaeth ysgol a digwyddiadau cymunedol. Mae'r ailddatblygiad yma yn hanfodol i ni gyrraedd ein cenhadaeth i gryfhau darpariaethau chwaraeon a sicrhau fod cyfleoedd i bobl ifanc cael mynedid i adnoddau gorau phosib.

Ymhellach, rydym yn arwain ac yn cyfarwyddo'r clybiau tuag at Be Active Wales Fund a Crowdfunder Grant, mae'r adnoddau yma yn bwysig i sicrhau fod clybiau efo'r gall i wella cyfleusterau i ddenu pobl newydd i'r clwb. Yn ychwanegol, mae'r cronfeydd yma yn cynnig y cyfle i unigolion datblygu ei sgiliau trwy cwrsiau ac i gael mynediad at offer newydd i clybiau ac ysgolion. Os fydd hyfforddwyr a gwirfoddolwr efo'r sgiliau ac adnoddau hanfodol, bydd y safon o hoci ardraws Cymru yn cynyddu hefyd.

Mae ein hymrwymiad yn ymestyn bellach na chefnogaeth ariannol. Rydym yn ymroddedig i sicrhau fod safon o gyfleusterau hoci ar draws Cymru yn cynyddu pob blwyddyn trwy gefnogi mwy o bobl a chlybiau gyflwyno ceisiadau am gyllid. Gan fuddsoddi yn y prosiectau yma a chefnogi clybiau trwy gyllid ar gael, rydym yn gweithio tuag at ddyfodol lle mae seilwaith yn cwrdd y galw ac yn cyfrannu at iechyd a lles cymunedau ledled Cymru. Nid yw ein hymdrechion yn ymwneud â chyllid yn unig ond â meithrin diwylliant o gyfranogiad gweithredol a rhagoriaeth mewn chwaraeon.

## YSTADEGAU ALLWEDDOL:

DROS

**£350K**

**O FUDDSODDI MEWN CAEAU ATP HOCI TRWY GYLLID GRŴP CYDWEITHREDOL**

**2**

**SAFLE WEDI'U HAILDDATBLYGU I GRYFHAU HOCI YN YR ARDALOEDD CYFAGOS**










# DADANSODDIAD O YSGOLION

Diolch i'n Swyddogion Datblygu Hoci newydd ym mhob rhanbarth, rydyn ni wedi gweld cynnydd mawr mewn gweithgareddau hoci yn ystod tymhorau'r ysgol. Ers eu penodi, rydyn ni wedi cynnal sawl gŵyl hoci dros Gymru, gan gynnwys ein gŵyl â'i brand newydd, wnaeth ddenu mwy na 100 o gyfranogwyr o bum ysgol gynradd wahanol. Roedd y digwyddiad hwn nid yn unig yn arddangos twf y gamp, ond hefyd yn rhoi llwyfan i dalentau ifanc ddangos eu sgiliau a'u hangerdd am hoci.

Ar ben hynny, rydyn ni wedi gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac ysgolion yng Ngwent, Castell-nedd a Phort Talbot i ddarparu cyfleoedd hoci estynedig i bobl ifanc. Mae hyn wedi cynyddu ein gwaith maes a'n heffaith ni yn sylweddol. Trwy'r ymdrechion hyn, rydym wedi cyflwyno sesiynau hoci mwy strwythuredig ac aml, gan sicrhau bod y gamp yn hygyrch i gynulleidfa ehangach a meithrin cymuned o selogion hoci ifanc. Rydym yn edrych ymlaen at dyfu'r partneriaethau hyn yn ogystal ag ysgogi mwy o fewn pob awdurdod lleol ledled Cymru'r tymor nesaf.

Rydyn ni hefyd wedi lansio treial o'n menter newydd, 'Switch the Pitch', sy'n annog ysgolion cynradd ac uwchradd i deimlo'n hyderus yn chwarae hoci ar amryw o arwynebau, mewn amryw o leoliadau. Gan darparu adnoddau a hyfforddiant, bydd 'Switch the Pitch' yn annog ysgolion i gynnwys hoci yn ei cwricwlwm addysg gorfforol. Mae'r fenter hon yn amrywio'r amgylcheddau chwarae, tra hefyd yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael y cyfle i chwarae hoci mewn lleoliadau traddodiadol ac anhraddodiadol, gan ehangu eu profiad a'u gallu i addasu o'r gamp.

Yn gyffredinol, mae effaith ein Swyddogion Datblygu Hoci wedi bod yn ddwys, gan arwain at fwy o gyfranogiad, gwell sgiliau, a chymuned hoci cryfach ledled Cymru. Mae llwyddiant parhaus ein gwyliau, ein partneriaethau, a mentrau fel 'Switch the Pitch' yn amlygu ein hymrwymiad i hyrwyddo hoci a darparu cyfleoedd gwerthfawr i bobl ifanc gymryd rhan yn y gamp yma.

## YSTADEGAU ALLWEDDOL:

**5**
**GŴYL**

**MWY NA**
**500**
**O DDISGYBLION**










# GWERSYLLOEDD HOCI

Rydyn ni wedi llwyddo i ailsefydlu ein Gwersylloedd Hoci ledled Cymru, gan gynnal mwy na naw gwersyll ers mis Chwefror 2024 yn y Gogledd, y Gorllewin a'r Dwyrain. Mae mwy a mwy wedi cymryd rhan yn y gwersylloedd, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at ehangu'r rhaglen hon yn ystod yr haf a'r tymor nesaf. Mae ein gwersylloedd ni'n rhoi cyfle i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau hoci hwyliog a deinamig yn ystod y gwyliau.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at groesawu mwy fyth o blant yn y dyfodol.

Diolch o galon i bawb sydd wedi cynnig lle i'n gwersylloedd ni. Diolch arbennig i Ganolfan Hamdden Crymych, Ysgol i Ferched Trefynwy, Coleg Crist, Clwb Hoci Pwllheli, Ysgol Gyfun Brynteg, a Chlwb Hoci Tywyn am eich cefnogaeth amhrisiadwy.

## YSTADEGAU ALLWEDDOL:

**11**
**GWERSYLL**

**120**
**WEDI CYMRYD RHAN**

# CYFLAWNI POTENSIAL





# UCHAFBWYNTIAU CYFLAWNI POTENSIAL

Adeg ysgrifennu hwn, rydyn ni bron â chyrraedd hanner ffordd yn ein cylch 4 blynedd tuag at Gemau'r Gymanwlad a Chwpan y Byd yn 2026. Mae ein holl dimau Perfformiad yn chwarae rhan allweddol yn y broses hon. Mae ein carfannau rhyngwladol Iau a'r Dreigiau yn cynyddu eu niferoedd ac yn ennill profiadau i helpu i bontio i'r rhaglenni oedolion, ac mae'r rhaglenni oedolion yn llunio ac yn ail-lunio cynlluniau a strategaethau, a'u hadolygu yn erbyn y cyfleoedd gemau cystadleuol sy'n codi. Bydd hyd yn oed y mwyaf didaro wedi sylwi bod y broses hon yn mynd rhagddi yn erbyn cefndir o gyfyngiadau ariannu, cynnydd sylweddol yn y cyfraniad y mae'n rhaid i chwaraewyr ei wneud, llai o allu i gael gafael ar lefel benodol o gymorth Perfformiad i'n carfannau a chwaraewyr a staff yn ymuno ac yn gadael ein rhaglenni yn gyson, sy'n un o ganlyniadau – uniongyrchol yn aml – yr heriau hyn a mwy. Ond yr hyn sy'n fy ngwneud i'n fwyaf balch yw agwedd ddiflino ein timau Perfformiad, gan edrych y tu hwnt i'r heriau a'u defnyddio'n gadarnhaol fel ffordd o gryfhau ein penderfyniad a'n hysbryd cyffredinol, a defnyddio hyn i ddangos un o nodweddion gwych chwaraeon yng Nghymru – brwydro i ragori ar y disgwyliadau ar yr adegau pwysicaf.

Roedd y flwyddyn ddiwethaf yma yn esiampl wych o fod yn ddigon dewr i gredu ein bod ni'n gallu parhau i ragori ar y disgwyliadau ar lefel Ewropeaidd a thu hwnt. Fe wnaeth ein timau dan 18 oed roi gemau eithriadol anodd i'w gwrthwynebwyr yn eu gemau Ewropeaidd cartref yn Abertawe. Roedd eu nerth fel tîm yn amlwg yn eu perfformiadau ac er nad oedd hynny'n ddigon i gael y blaen yn yr adegau allweddol a chael y canlyniadau a ddymunwyd, bydd y chwaraewyr yn elwa o'r profiadau gwych maen nhw wedi'u cael. Mae nifer ohonynt eisoes wedi ennill eu lle yn y carfannau Dreigiau neu Hŷn eleni.

Byddwn yn cofio am ymdrechion clodwiw tîm y Dynion ym Mhencampwriaethau Ewrop yn yr Almaen am amser maith. Er y byddant yn siomedig o fod wedi colli allan ar y 6 safle uchaf i osgoi gorfod ennill eu lle yn adran y Bencampwriaeth eto, fe wnaethon nhw roi gêm dda iawn i nifer o wledydd lle mae hoci'n gamp broffesiynol. Roedd y gêm gyfartal 3-3 epig yn erbyn yr Almaen, pencampwyr y byd a'r tîm cartref yn y gystadleuaeth, mewn stadiwm dan ei sang a phawb yn cefnogi'r tîm cartref, yn brawf unwaith eto o'n gallu ni i gystadlu yn erbyn y goreuon. Roedd profiad cyntaf nifer o chwaraewyr ifanc o hoci




hŷn rhyngwladol yn gynharach yn yr haf yn dangos ein bod yn cynllunio olyniaeth yn ofalus ac yn barhaus i lenwi unrhyw fylchau yn nhîm dynion sydd wedi bod yn gyson am sawl blwyddyn. Ar ôl yr ymgyrch Ewropeaidd, roedd yn chwithig gorfod ffarwelio â Will Packer, rheolwr poblogaidd y bydd colled fawr ar ei ôl, ond mae Gwyn Williams hefyd yn brofiadol iawn ac yr un mor uchel ei barch. Mae wedi camu i'r adwy yn gwbl ddidrafferth.

Roedd dechrau'r haf yn 2023 yn gyfle i'r Merched Hŷn ychwanegu nifer o chwaraewyr newydd o'r tu allan i'r garfan at brif gorff y grŵp hŷn i gymryd lle'r rhai oedd wedi symud ymlaen neu wedi ymddeol. Roedd hyn yn golygu bod chwe chwaraewr wedi ennill eu cap rhyngwladol cyntaf yn ystod profiad gwych y daith i Uruguay i gystadlu mewn twrnamaint tair gwlad yn erbyn Uruguay a Chile. Roedd y profiad yma'n baratoad defnyddiol oherwydd fe wnaethon nhw lwyddo i orffen yn drydydd ac ennill medal Efydd ym Mhencampwriaeth Ewrop II ym Mhrâg – camp nad oes tîm ar y lefel hon wedi'i chyflawni ers 2009. Mae natur ifanc y garfan yn arwydd o waith da ein rhaglenni pontio yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r lefel hon o ymgysylltu a chyfleoedd yn hollbwysig i ganiatáu i garfannau hŷn y dyfodol aros ar y lefel hon, os nad gwella arni.

Er nad oedd twrnamaint dan 21 oed i'n grwpiau Dreigiau eleni, maen nhw wedi bod yn cynyddu eu capasiti ac yn ennill profiadau wrth barhau i ddatblygu a phontio chwaraewyr drwy eu rhaglenni. Maen nhw yng nghanol cylch dwy flynedd sy'n dod i ben ym Mhencampwriaeth Dan 21 Ewrop ym mis Gorffennaf 2024.

Ar y thema o barhau i ragori ar y disgwyliadau yn y byd hoci, a hithau'n flwyddyn Olympaidd fe hoffwn i gloi drwy sôn am ein grŵp o athletwyr Prydain Fawr. Mae 10 ohonynt ar draws ein rhaglenni amrywiol erbyn hyn. Dydw i ddim yn cofio i ni gael cynrychiolaeth uwch yma yn Hoci Cymru. Dymuniadau gorau i bawb sy'n rhan o'r rhaglen Hŷn ar hyn o bryd wrth iddyn nhw aros am newyddion ynghylch pwy fydd yn cael eu dewis ar gyfer Gemau Olympaidd Paris eleni, a fydd wrth gwrs yn gyfle gwych unwaith eto i hoelio sylw'r byd ar ein camp ardderchog ni.

Ar y Gemau Olympaidd hynny mae'r sylw i gyd o ran Perfformiad yn awr. Bydd ein timau Hŷn ni'n cystadlu mewn Gemau Rhagbrofol Ewropeaidd ym mis Awst a bydd ein carfannau dan 21 oed yn cymryd rhan mewn cystadlaethau Ewropeaidd i geisio cymhwyso ar gyfer dyrchafiad yn eu hadrannau, yn ogystal ag ennill eu lle yng Nghwpan Ieuenctid y Byd. Hefyd mae gennym ni dîm Dreigiau / Merched Hŷn yng nghystadleuaeth 5 bob ochr Ewrop, yn ogystal â'n timau dan 16 oed cynrychioliadol ni o'n carfannau Iau. Fe fydd yn haf prysur a chyffrous gyda llawer o atgofion yn cael eu creu, ac ambell lwyddiant hefyd gobeithio!

**Kevin Johnson**
**Cyfarwyddwr Perfformiad**



# HOCI PRYDAIN FAWR

Heb os, dyma'r amser mwyaf cyffrous i fod yn rhan o raglen Prydain Fawr gyda'r Gemau Olympaidd ym Mharis ychydig fisoedd i ffwrdd yn ogystal â chyfres haf gartref y Gynghrair Broffesiynol i edrych ymlaen ati. Roedden ni wrth ein bodd o weld Gareth Furlong yn cael ei gynnwys yng ngharfan Dynion Prydain Fawr yn ddiweddar wrth iddo geisio hawlio ei le yn hwyr yn y Gemau Olympaidd ac mae'n sicr mewn sefyllfa dda i greu argraff ar ôl cyflawni'n gyson yng nghrys Cymru dros gyfnod hir o amser nawr ac rydw i'n siŵr bod holl gymuned Hoci Cymru yn dymuno'r gorau i'r holl athletwyr yma yn yr hyn sydd o'u blaen ac rydyn ni'n gobeithio gweld cymaint â phosibl yn cymryd rhan ym Mharis. Rydyn ni'n falch iawn o fod wedi cynyddu ein niferoedd yn rhaglen EDP Prydain Fawr, sy'n gydnabyddiaeth i ddatblygiad a chynnydd parhaus ein chwaraewyr ni ac yn dynodi sefyllfa gyfredol iach wrth i ni geisio cynnal neu wella ar ein niferoedd yn y dyfodol gan drosglwyddo i sgwadiau hŷn Prydain Fawr. Felly llongyfarchiadau i Owen Sutton a Rebecca Daniel sy'n ymuno â Fred Newbold, Millie Holme a Betsan Thomas yn eu rhaglenni priodol.

**Dynion Hŷn Prydain Fawr:**
Toby Reynolds-Cotterill
Rupert Shipperley
Jacob Draper
Gareth Furlong

**Merched Hŷn Prydain Fawr:**
Sarah Jones

**Dynion Rhaglen Datblygu Elitaidd Prydain Fawr:**
Fred Newbold
Owen Sutton

**Merched Rhaglen Datblygu Elitaidd Prydain Fawr:**
Millie Holme
Betsan Thomas
Rebecca Daniel

# CERRIG MILLTIR

Cyrhaeddodd y chwaraewyr canlynol gerrig milltir bersonol sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd, felly hoffem longyfarch y rhain...

## DYNION

**1AF CAPIAU**

Jonny Fleck
Mike Wood
Owen Sutton

**50 O GAPIAU**

Rhys Bradshaw

**100 O GAPIAU**

Ben Francis
Rupert Shipperley

## MERCHED

**1AF CAPIAU**

Amy Cradden
Anja Atkin
Sophia Crawshay
Lucie Daman
Maisie Riley
Betsan Thomas

**50 O GAPIAU**

Izzie Howell
Izzy Webb

**150 O GAPIAU**
*ar y Cyd (Cymru a Phrydain Fawr)*

Sarah Jones




# LLWYBR

## Sirol

Tymor 2023/2024 oedd tymor cyntaf ein Llwybr ni ar ei newydd wedd. Diolch i'r llwybr hwn, rhoddwyd sylw haeddiannol i Hoci Sirol unwaith eto, ac mae'n anhygoel bod 8 Sir ledled Cymru, gyda mwy na 600 o chwaraewyr rhwng 13 ac 17 oed, wedi cael eu henwebu yn 23/24. Roedd gan y siroedd gynrychiolaeth ar gyfer Merched Dan 15 oed, Merched Dan 17 oed a Bechgyn Dan 17 oed.

Roedd hyn yn cyfateb i 8 tîm Merched Dan 15 (11 bob ochr), 8 tîm Merched Dan 17 (11 bob ochr) a 12 tîm Bechgyn (7 bob ochr). Pan oedden nhw'n paratoi ar gyfer y Pencampwriaethau Sirol, a gynhaliwyd yn ystod hanner tymor mis Chwefror, bu'r siroedd yn hyfforddi'n gyson ac yn cystadlu mewn 3 gêm glwstwr yn erbyn siroedd eraill.

Bu'r Merched Dan 15 yn chwarae mewn 16 o gemau yn ystod y pencampwriaethau sirol, a oedd yn gyfystyr â 560 o funudau o hoci.

Bu'r Merched Dan 17 yn chwarae mewn 16 o gemau yn ystod y pencampwriaethau sirol, a oedd yn gyfystyr â 560 o funudau o hoci.

Bechgyn – 34 o gemau yn ystod y pencampwriaethau sirol, a oedd yn gyfystyr ag 850 o funudau o hoci.

I gyd gyda'i gilydd, yn ystod hanner tymor mis Chwefror, chwaraewyd, dyfarnwyd a gwyliwyd bron i 2000 o funudau o hoci.

I'r chwaraewyr a'r timau i gyd – da iawn chi! A llongyfarchiadau i bencampwyr sirol 2023/24.

**Merched Dan 15**

3ydd – Gwent, 2il – Eryri, 1af – Arfordir y De

**Merched Dan 17**

3ydd – Arfordir y De a Chymoedd Morgannwg, 2il – Caerdydd 1, 1af – Eryri

**BechgynDan 17**

3ydd – Caerdydd 1, 2il – Arfordir y De 1, 1af – Gogledd Ddwyrain 2

Yn ystod y tymor Sirol, roedd prif hyfforddwyr y siroedd hefyd yn edrych ar chwaraewyr yn eu siroedd i'w henwebu ar gyfer y lefel nesaf. Yn ogystal â hyn, yn ystod yr Ŵyl Sirol, roedd hyfforddwyr y Carfannau Grwpiau Oedran Cenedlaethol (NAGS) o gwmpas yn gwylio'r chwarae ac yn dewis chwaraewyr ar gyfer y lefel nesaf, sef lefel Ranbarthol.




## Rhanbarthol

Cychwynnodd ein Hacademïau Rhanbarthol yn ddiweddar, gyda'r sesiwn gyntaf yn cael ei chynnal ddiwedd Ebrill. Gwelwyd 4 Canolfan Ranbarthol – Gogledd, De Orllewin, De Ddwyrain 1 a De Ddwyrain 2 – yn cynnig rhagor o gyfleoedd datblygu technegol a holistaidd i oddeutu 200 o athletwyr iau ac 17 o hyfforddwyr/rheolwyr. Mae'r Academïau Rhanbarthol yn dilyn yr hyn a ddisgwylir ar lefel NAGS yn y diwrnodau hyfforddi. Maen nhw'n ddiwrnodau llawn 6 awr sy'n cynnwys cyfleoedd datblygu ar y cae ac fel arall. Mae'r canolfannau hyn yn gwneud yn fawr o gefnogaeth ein Partneriaethau Rhanbarthol gyda Phrifysgol Wrecsam, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, yn ogystal â Chwaraeon Cymru.

Byddwn hefyd yn dod â chwaraewyr o'r 4 canolfan at ei gilydd yn 2023/24 i greu ochr sy'n cynrychioli Rhanbarthau Cymru i gystadlu yng Ngemau Ysgolion 2024 – cystadleuaeth aml-gamp a gynhelir ym Mhrifysgol Loughborough. Mae hynny'n newyddion cyffrous iawn!

Diolch o galon i'r holl chwaraewyr, y rhieni a'r hyfforddwyr sydd wedi bod yn rhan o'r llwybr ac wedi helpu i lywio a siapio'r tymor newydd hwn. Pan fydd tymor y llwybr wedi dod i ben, bydd cyfnod o adolygu ar gyfer tymor 2023/2024.



# GRWPIAU OEDRAN CENEDLAETHOL

## 2023 – DIWEDD TYMOR 2022/23

Roedd 2023 yn flwyddyn gyffrous iawn i'n Grwpiau Oed Cenedlaethol Dan 18 wrth i gystadleuaeth EuroHockey Championship II ar gyfer merched a bechgyn ddod i Abertawe. Roedd hwn yn ddigwyddiad a hanner, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe. Llwyddodd y Merched i ennill medal arian, ar ôl cystadlu yn erbyn Twrci a Gwlad Pwyl. Mae'r manylion llawn i'w gweld yma: **Pencampwriaeth D18 EwroHoci II-B 2023 Merched - EwroHoci**

Bu bron iawn i'r Bechgyn ennill medal hefyd, gan gyrraedd y 4ydd safle. Bu'r Bechgyn yn cystadlu yn erbyn yr Eidal, y Swistir, Lithwania a'r Weriniaeth Tsiec. Mae'r manylion llawn i'w gweld yma: **Pencampwriaeth D18 EwroHoci II-B 2023 Bechgyn - EwroHoci**

Yn dilyn y Gemau Ewropeaidd, bu'r timau Dan 18 yn cystadlu yng Ngŵyl Academi Dalent gyntaf England Hockey. Cawsant gyfle i chwarae mewn cyfres o gemau dros benwythnos gŵyl y banc yn Nottingham.

Yn olaf, a ninnau wedi dechrau symud tuag at y rhaglen newydd, daeth tymor 2022/2023 i ben gyda thrip Erasmus 11 diwrnod arall i'r Iseldiroedd yn ystod hanner tymor yr Hydref. Cafodd 18 o fechgyn gyfle i gael blas ar ddiwylliant a hoci yn yr Iseldiroedd, a hyfforddi a threulio amser gyda'i gilydd ar y cae hoci ac oddi arno.

Roedd y cyfnod hwn yn werthfawr tu hwnt, ac nid yw'n rhywbeth rydyn ni'n gallu ei gynnig i'n hathletwyr iau yn aml iawn. Fodd bynnag, diolch i gymorth ariannol gan brosiect Erasmus+, cafodd y chwaraewyr chwarae hoci yn rhai o glybiau gorau'r Iseldiroedd a chwrdd â chwaraewyr hoci rhyngwladol hyd yn oed, heb sôn am wylio gemau Hoofklasse, gan gynnwys Bloemendaal, Amsterdam, HGC, Kampong, Schaerweijde a Pinoke. Cawsant gyfle i gystadlu yn erbyn tîm Dan 18 Rotterdam hefyd, sef un o'r timau iau gorau yn yr Iseldiroedd. Roedd uchafbwyntiau eraill yn cynnwys Qui Vive, Hilversum, Phoenix, Fletiomare a Thomas Zoetermeer. Diolch o galon i'r holl glybiau a groesawodd ein chwaraewyr ac ychwanegu at brofiad bythgofiadwy. Diolch hefyd i Ton Langenhuijsen am ei help yn trefnu'r holl bethau ac yn arwain ein chwaraewyr a'n staff yn yr Iseldiroedd. Rhoddodd y tîm grys Cymru wedi'i lofnodi i Ton i ddiolch iddo.

Diolch i holl staff y rhaglen sy'n helpu i lywio ac arwain y rhaglenni hyn. Gyda nifer o staff yn symud ymlaen, hoffem ddiolch o waelod calon iddynt a dymuno pob llwyddiant i bawb ar gyfer y dyfodol.




## NAGS DAN 18 2023/2024

Yn unol â'n llwybr newydd, roedd modd i ni addasu a chychwyn ein rhaglen NAGS yn gynt. Bu cyfnod o newid wrth i ni edrych ar staff NAGS a phenodi aelodau newydd. Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf, ac er mwyn i chwaraewyr cymwys gael eu gweld, gwahoddwyd yr holl chwaraewyr blaenorol o'r Canolfannau Perfformiad Rhanbarthol am asesiad, ac ar ôl cyfnod o asesu, dewiswyd 36 o Fechgyn Dan 18 a 36 o Ferched Dan 18 ar gyfer rhaglen NAGS 2023/24. Hefyd, yn newydd ar gyfer y tymor hwn, dewiswyd nifer o chwaraewyr NAG wrth gefn.

Yn 2023, cyflwynwyd Hyfforddiant Rhanbarthol NAGS. Roedd hyn yn caniatáu i hyfforddwyr gael mwy o amser cyswllt rheolaidd i ddatblygu chwaraewyr yn dechnegol, gan leihau'r amser a'r teithio i chwaraewyr. Dyma'r sesiynau yr oedd modd i'n chwaraewyr NAG wrth gefn gael mynediad atynt hefyd.  Cynhelir y sesiynau rhanbarthol naill ai yng Ngogledd Cymru neu yn Ne Cymru, tua unwaith y mis. Byddwn hefyd yn cynnal gweithgareddau ar gyfer y garfan gyfan yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae hyn yn rhoi cyfle i wneud gwaith mwy tactegol a datblygu'r garfan. Yn ystod hanner tymor Chwefror, cafwyd y cyflwyniad cyntaf ar atal dopio er mwyn cychwyn y drafodaeth ac addysgu ein hathletwyr ifanc. Yn ystod yr hanner tymor, cynhaliodd Lloyd Ashley, cyn chwaraewr rygbi proffesiynol, weithdy lles i grwpiau'r Bechgyn a'r Merched. Bu'n sôn am wytnwch a chryfder, a phwysleisiodd pa mor bwysig yw iechyd meddwl a gofalu am ein gilydd.

Yn dilyn hyn, cafodd y grwpiau ragor o hyfforddiant rhanbarthol cyn dod yn ôl at ei gilydd unwaith eto am gyfres gyffrous dros y Pasg. Dyma un o'r troeon cyntaf i 4 o'n rhaglenni perfformiad chwarae gartref ac yn erbyn gwrthwynebwyr gwahanol. Roedd hwn yn ddigwyddiad gwych, ac yn gyfle penigamp i lansio ein cit newydd, yn dilyn ein partneriaeth gyda Kitlocker a Castore.

Chwaraeodd ein Merched NAG Dan 18 dair gêm agos fel rhan o gyfres yn erbyn tîm Dan 18 Canada, a orffennodd yn gyfartal, ar ôl cael yr un sgôr yn y gêm gyntaf, colli o ychydig iawn yn yr ail gêm, ac ennill y drydedd gêm o drwch blewyn.

### Merched Dan 18

Cymru 2 - 2 Canada

Cymru 2 - 3 Canada

Cymru 2 - 1 Canada

Cafodd ein Bechgyn NAG Dan 18 gêm galed yn erbyn tîm cryf a chorfforol Dan 19 Ulster. Colli fu eu hanes ym mhob un o'r 3 gêm, ond gwelwyd eu perfformiad yn gwella o un gêm i'r llall, a dylai hyn fod wedi eu paratoi'n dda ar gyfer gweddill yr haf.

### Bechgyn Dan 18

Cymru 1 - 5 Ulster

Cymru 1 - 4 Ulster

Cymru 2 - 4 Ulster

Bydd rhaglen 2023/24 yn gyfnod prysur arall i'n hathletwyr iau wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer Pencampwriaeth EuroHockey 5s i chwaraewyr Dan 16, sef cyfres bedair gwlad gyda Sbaen, yr Iseldiroedd ac Iwerddon, yn ogystal â chystadlu eto yng Ngŵyl Academi Dalent England Hockey. Bydd hyn yn ymestyn y chwaraewyr i gyd ac yn eu datblygu o fewn y rhaglen, wrth i ni edrych ymlaen a dechrau meddwl am Bencampwriaethau Ewrop yn 2025.




# STAFF CEFNOGI PERFFORMIAD

## Dynion Hŷn

Danny Newcombe
*Prif Hyfforddwr y Dynion Hŷn*

Gwyn Williams
*Rheolwr Rhaglen y Dynion Hŷn*

Martin Schouten
*Hyfforddwr Cynorthwyol y Dynion Hŷn a Phrif Hyfforddwr Dreigiau'r Dynion*

Sam Rowe
*Dadansoddwr y Dynion Hŷn a Hyfforddwr Cynorthwyol Dreigiau'r Dynion*

Reuben Elliott
*Staff Cefnogi Dreigiau'r Dynion*

Debbie Mason
*Ffisiotherapydd y Dynion Hŷn*

Mitchell Walsh
*Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru'r Dynion*

## Merched Hŷn

Kevin Johnson
*Prif Hyfforddwr y Merched Hŷn*

Rebecca Daniels
*Rheolwr Rhaglen y Merched Hŷn*

Walid Abdo
*Hyfforddwr Cynorthwyol y Merched Hŷn a Phrif Hyfforddwr Dreigiau'r Merched*

Paul Edwards
*Staff Cefnogi Dreigiau'r Merched*

Samantha Walker
*Ffisiotherapydd y Merched Hŷn*

Rhianna Galvin
*Dadansoddwr Perfformiad y Merched Hŷn*

Sam Thirlwell
*Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru'r Merched Hŷn*

Alyssa Mildenstein
*Ffisiotherapydd Dreigiau'r Merched*

Matthew Sears
*Staff Cefnogi Dreigiau'r Merched*

## Cefnogi Perfformiad

Henry Davies
*Pennaeth Cryfder a Chyflyru*

Jonny Harper
*Pennaeth Gwasanaethau Meddygol*

Tom Millington
*Hyfforddwr Gôl-geidwaid y Dynion a'r Merched Hŷn*

# HYFFORDDWYR

## Grŵp Oedran Cenedlaethol – Bechgyn

Mark Ramage *Prif Hyfforddwr*

Shelley Robinson *Rheolwr Rhaglen*

Brett Madden *Hyfforddwr Cynorthwyol*

Chris Davis *Hyfforddwr Cynorthwyol*

Dave Sharp *Hyfforddwr Gôl-geidwaid a Dadansoddwr*

Connor Heatherton *Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru*

## Grŵp Oedran Cenedlaethol – Merched

Mo Samak *Prif Hyfforddwr*

Emily Tyler *Rheolwr Rhaglen*

Shenarda Dedic *Hyfforddwr Cynorthwyol*

Adam Broomfield *Hyfforddwr Gôl-geidwaid a Dadansoddwr*

David Asprey *Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru*

Carmen Ansley, Chelsie-Jane Mason, Cora Hogan, Ashleigh Abbott *Pŵll Ffisiotherapi*

## Hyfforddwyr y Canolfannau Perfformiad Rhanbarthol

Brett Madden *Prif Hyfforddwr y Gogledd*

Tom Williamson *Prif Hyfforddwr y Gogledd*

Liam Bell *Hyfforddwr Cynorthwyol y Gogledd*

Rob Williams *Hyfforddwr Cynorthwyol y Gogledd*

Robert Webb *Prif Hyfforddwr y De Orllewin*

Callum Chapman *Prif Hyfforddwr y De Orllewin*

Lucy Wiseman *Hyfforddwr Cynorthwyol y De Orllewin*

Charlie Johnson *Hyfforddwr Cynorthwyol y De Orllewin*

James Bandurak *Prif Hyfforddwr De Ddwyrain 1*

Jas Singh *Hyfforddwr Cynorthwyol De Ddwyrain 1*

George Marshall *Hyfforddwr Cynorthwyol De Ddwyrain 1*

Angus McDermid *Hyfforddwr De Ddwyrain 1 a 2*

David Robinson *Prif Hyfforddwr De Ddwyrain 2* George Riley *Hyfforddwr Cynorthwyol De Ddwyrain 2*

Ethan Broadbank *Hyfforddwr Cynorthwyol De Ddwyrain 2*

Angus McDermid *Hyfforddwr De Ddwyrain 1 a 2*

## Hyffordwyr Sirol

Fleur Gallagher *Prif Hyfforddwr Bechgyn Afan Nedd Tawe*

Callum Chapman *Prif Hyfforddwr Bechgyn Afan Nedd Tawe*

Ffion Morgans *Prif Hyfforddwr Merched Dan 15 Afan Nedd Tawe*

Victoria Vaughan *Prif Hyfforddwr Merched Dan 17 Afan Nedd Tawe*

*Robert Webb Prif Hyfforddwr Bechgyn Dyfed*

Robert Codd *Hyfforddwr Cynorthwyol Bechgyn Dyfed*

Charlotte Harris *Prif Hyfforddwr Merched Dan 15 Dyfed*

Siriol Richards *Hyfforddwr Cynorthwyol Merched Dan 15 Dyfed*

Lucy Griffiths *Prif Hyfforddwr Merched Dan 17 Dyfed*

Sian Davies *Hyfforddwr Cynorthwyol Merched Dan 17 Dyfed*

Thomas Miller *Prif Hyfforddwr Bechgyn Arfordir y De*

Craig Llewellyn *Hyfforddwr Cynorthwyol Bechgyn Arfordir y De*

Graeme Jones *Prif Hyfforddwr Merched Dan 15 Arfordir y De*

Jason Arnold *Hyfforddwr Cynorthwyol Merched Dan 15 Arfordir y De*

Graeme Jones *Prif Hyfforddwr Merched Dan 17 Arfordir y De*

Jason Arnold *Hyfforddwr Cynorthwyol Merched Dan 17 Arfordir y De*

George Marshall *Prif Hyfforddwr Bechgyn Caerdydd*

Jas Singh *Prif Hyfforddwr Merched Dan 15 Caerdydd*

Nic Morgan *Prif Hyfforddwr Merched Dan 17 Caerdydd*

George Riley *Prif Hyfforddwr Bechgyn Gwent*

George Riley *Prif Hyfforddwr Merched Dan 15 Gwent*

Juan Peralta *Hyfforddwr Cynorthwyol Merched Dan 15 Gwent*

George Riley *Prif Hyfforddwr Merched Dan 17 Gwent*

Juan Peralta *Hyfforddwr Cynorthwyol Merched Dan 17 Gwent*

Mark Zeigler *Prif Hyfforddwr Bechgyn Cymoedd Morgannwg*

Jess Owens *Hyfforddwr Cynorthwyol Bechgyn Cymoedd Morgannwg*

Mark Zeigler *Prif Hyfforddwr Merched Dan 15 Cymoedd Morgannwg*

Jess Owens *Hyfforddwr Cynorthwyol Merched Dan 15 Cymoedd Morgannwg*

Mark Zeigler *Prif Hyfforddwr Merched Dan 17 Cymoedd Morgannwg*

Jess Owens *Hyfforddwr Cynorthwyol Merched Dan 17 Cymoedd Morgannwg*

Liam Bell *Prif Hyfforddwr Bechgyn y Gogledd Ddwyrain*

Stephen Bullock *Hyfforddwr Cynorthwyol Bechgyn y Gogledd Ddwyrain*

Tom Williamson *Prif Hyfforddwr Merched Dan 15 y Gogledd Ddwyrain*

Simon Samuels *Hyfforddwr Cynorthwyol Merched Dan 15 y Gogledd Ddwyrain*

Tom Williamson *Prif Hyfforddwr Merched Dan 17 y Gogledd Ddwyrain*

Simon Samuels *Hyfforddwr Cynorthwyol Merched Dan 17 y Gogledd Ddwyrain*

Matt Wilkinson *Prif Hyfforddwr Bechgyn Eryri*


Lynda Bennett *Prif Hyfforddwr Merched Dan 15 Eryri*

Nathon Hatton *Hyfforddwr Cynorthwyol Merched Dan 15 Eryri*

Marlon Allison / Janelle Lowe *Prif Hyfforddwr Merched Dan 17 Eryri*

Rhys Davies *Hyfforddwr Cynorthwyol Merched Dan 17 Eryri*

# AMGYLCHOEDD LLOEDOL






# CYMDEITHAS DYFARNWYR HOCI CYMRU

Mae tymor 2023/2024 wedi bod yn dymor llwyddiannus o benodiadau ar lefel EwroHoci a FIH. Dan do, penodwyd Abby MacArthur i Bencampwriaeth Dan Do y Merched yn Berlin ym mis Chwefror, a phenodwyd Chris Brewer yn Gyfarwyddwr Technegol ym Mhencampwriaethau Ewropeaidd awyr agored y dynion ym Monchengladbach yn y mis Gorffennaf blaenorol. Penodwyd Kevin Roberts i'r EHL yn y rownd KO16 yn Barcelona a chafodd ei ddewis hefyd gan Brydain Fawr i fynd i Gwpan Sultan Johor ym Malaysia.

Gartref bu mwy o benodiadau yng Nghwpan Cenedlaethol Hoci Cymru nag erioed o'r blaen ac mae penodiadau wedi'u gwneud hefyd yng Nghynghrair Dan Do newydd De Cymru. Yn ogystal â chyflwyno'r cyrsiau lefel un ar-lein, mae'r tymor yma hefyd wedi cynnwys cyflwyno seminar rheolau cyn y tymor ar gyfer y gêm dan do ac awyr agored a datblygu seminar swyddogion technegol newydd.

Mae'r tirlun ariannol yn newid o hyd ac yn heriol. Mae gostyngiad yn y cyllid y tymor yma wedi golygu bod angen i WHUA edrych ar wahanol fathau o refeniw. Yn anffodus mae hyn wedi golygu ein bod ni wedi gorfod codi tâl ar glybiau am benodiadau.

Ar ddiwedd y tymor yma ymddeolodd Cathy Wright a Chris Brewer o Restr FIH. Mae WHUA wedi dathlu eu gyrfaoedd drwy gyflwyno Aelodaeth Oes i Cathy a Chris i Gymdeithas Dyfarnwyr Hoci Cymru.

Yn olaf, hoffem ddiolch i bawb sydd wedi dyfarnu neu weithredu fel swyddog mewn gemau y tymor yma, rydym yn gwerthfawrogi eich ymdrechion yn fawr iawn. Hefyd hoffai WHUA ddiolch i holl aelodau ein pwyllgorau ni am y gwaith maen nhw wedi'i wneud drwy gydol y tymor.

# PENODIADAU DYFARNWYR A SWYDDOGION

| PENODIADAU EWROHOCI | | | |
|---|---|---|---|
| **ENW'R GYSTADLEUAETH** | **DYDDIAD** | **ENW'R DYFARNWR / SWYDDOG** | **RÔL** |
| Tlws Clwb EwroHoci Awyr Agored y Dynion I @ Vienna (AUT) | 7-10 Ebrill 2023 | Luke Rees | Dyfarnwr Cenedlaethol |
| Her Clwb EwroHoci Awyr Agored y Dynion I @ Sveti Ivan Zelina (CRO) | 25-28 Mai 2023 | Kevin Roberts | Dyfarnwr a Benodwyd |
| Her Clwb EwroHoci Awyr Agored y Merched II @ Vienna (AUT) | 26-29 Mai 2023 | Clare Barwood<br>Chloe McCall | Dyfarnwr Cenedlaethol |
| Pencampwriaeth Bechgyn Awyr Agored EwroHoci @ Krefeld (GER) | 8-16 Gorfff 2023 | Karen Evans<br>Kevin Roberts | Rheolwr Dyfarnwyr<br>Dyfarnwr a Benodwyd |
| Pencampwriaeth Merched Awyr Agored EwroHoci @ Krefeld (GER) | 8-16 Gorff 2023 | Clare Barwood | Dyfarnwr Cenedlaethol |
| Pencampwriaeth Bechgyn Awyr Agored EwroHoci II-B @ Abertawe (WAL) | 9-15 Gorff 2023 | Mark Staunton<br>Jonathan Goold | Rheolwr Dyfarnwyr<br>Dyfarnwr Cenedlaethol |
| Pencampwriaeth Merched Awyr Agored EwroHoci II-B @ Abertawe (WAL) | 9-15 Gorff 2023 | Mark Staunton<br>Megan James | Rheolwr Dyfarnwyr<br>Dyfarnwr Cenedlaethol |
| Pencampwriaeth Merched Awyr Agored EwroHoci II-A @ Zagreb (CRO) | 10-15 Gorff 2023 | Victoria Lester | Beirniad |
| Pencampwriaeth Merched Awyr Agored EwroHoci II @ Prâg (CZE) | 30-5 Awst 2023 | Cathy Wright | Dyfarnwr Cenedlaethol |
| Pencampwriaeth EwroHoci Awyr Agored y Dynion @ Mönchengladbach (GER) | 18-27 Awst 2023 | Chris Brewer | Dirprwy Technegol |
| Awyr Agored y Dynion EHL KO16 @ Barcelona (Sbaen) | 6-8 Hydref 2023 | Kevin Roberts | Dyfarnwr a Benodwyd |
| Pencampwriaeth EwroHoci Dan Do y Merched @ Berlin (GER) | 8-11 Chwe 2024 | Victoria Lester<br>Abby McOram | Beirniad<br>Dyfarnwr a Benodwyd |
| Tlws Clwb Dan Do EwroHoci y Dynion @ Plzeň (CZE) | 16-18 Chwe 2024 | Kevin Roberts | Dyfarnwr a Benodwyd |
| Her Clwb EwroHoci Dan Do y Dynion I @ Ferrara (ITA) | 16-18 Chwe 2024 | Christian Phillips-Adams | Dyfarnwr Cenedlaethol |
| Tlws Clwb Dan Do EwroHoci y Merched @ Skierniewice (POL) | 23-25 Chwe 2024 | Clare Barwood | Dyfarnwr Cenedlaethol |



| PENODIADAU FIH | | | |
|---|---|---|---|
| **ENW'R GYSTADLEUAETH** | **DYDDIAD** | **ENW'R DYFARNWR / SWYDDOG** | **RÔL** |
| Pencampwriaeth EwroHoci 5 2023 y Merched @ Walcz, Gwlad Pwyl | 28-1 Gorff 2023 | Clare Barwood | Dyfarnwr Cenedlaethol |
| Pencampwriaeth EwroHoci II 2023 y Merched @ Prâg, Y Weriniaeth Tsiec | 30-5 Awst 2023 | Cathy Wright | Dyfarnwr Cenedlaethol |
| Pencampwriaeth EwroHoci 2023 y Dynion @ Mönchengladbach, Yr Almaen | 18-27 Awst 2023 | Chris Brewer | Dirprwy Technegol |
| Twrnamaint Gwadd Merched Iau y 4 Gwlad 2023 @ Düsseldorf | 18-23 Awst 2023 | Clare Barwood | Dyfarnwr Niwtral |
| Pencampwriaeth EwroHoci 2023 y Merched @ Mönchengladbach, Yr Almaen | 18-27 Awst 2023 | Chris Brewer | Dirprwy Technegol Cynorthwyol |
| Cwpan Sultan Johor 2023 @ Johor, Malaysia | 27-4 Tach 2023 | Kevin Roberts | Dyfarnwr |
| Cynghrair Hoci Broffesiynol FIH 2023-24 (W) @ Amrywiol | 6 Rhag - 29 Meh 2024 | Clare Barwood | Dyfarnwr |
| Pencampwriaeth EwroHoci Dan Do y Merched 2024 @ Berlin, Yr Almaen | 8-11 Chwe 2024 | Abby McOram | Dyfarnwr |



# CYFRANOGIAD



# MEISTRI CYMRU
## DYNION: 1 EBRILL 2023 – 31 MAWRTH 2024

Cymysg oedd y profiad eleni i dimau Meistri'r Dynion gyda'r canlyniadau'n siomedig ar y cyfan – gresynu nad oedd ganddynt sgorwyr goliau mwy profiadol oedd y thema ar draws nifer o grwpiau oedran – ond bod y dyfodol yn addawol iawn. Perfformiad rhagorol y flwyddyn oedd Medal Arian y tîm dros 55 oed ym Mhencampwriaethau Dan Do cyntaf y Byd (gweler isod) wedi'i ategu gan ganlyniadau gwych ar draws y grwpiau oedran eraill. Edrychwn ymlaen at ragor o lwyddiant yn y fformat hwn a'r broses o drawsnewid i'r carfanau awyr agored hefyd. Diolch yn fawr i Rob Blacklidge am lywio'r fenter newydd hon. Daeth perfformiad nodedig y Gemau Ewropeaidd awyr agored gan y tîm dros 55 oed hefyd a fethodd ag ennill medal Efydd bosib o un gôl yn y pedwerydd chwarter gan Loegr.

Yn dangos twf ac uchelgais ein carfanau ymhellach mae'r 3 digwyddiad rhyngwladol a gynhaliwyd yng Nghaerdydd fel y nodir isod - mae profiad rhyngwladol yn hanfodol ac mae chwarae yng Nghaerdydd o flaen torfeydd sylweddol yn dangos sefyllfa gadarnhaol hoci'r Meistri. Amlygir hyn gan y tîm dros 75 oed a chwaraeodd yn eu Pencampwriaethau Ewropeaidd cyntaf ac a gynhaliodd yr hyn a gredwn ni oedd y twrnamaint cyntaf i bobl dros 75 oed yng Nghystadleuaeth y 4 Gwlad yn y DU. Mae ein diolch yn fawr i staff Hoci Cymru a dyfarnwyr a swyddogion Cymru am eu cefnogaeth i lwyfannu'r digwyddiadau hyn.

**Tîm dros 45 oed Cymru yn erbyn Ffrainc, Caerdydd - Ebrill 2023**

**Dros 45 oed:** v Ffrainc 3-2 a 3-1

**Cwpan Celtaidd, St Germain-en-Laye, Paris – Ebrill 2023**

Roedd hwn yn fersiwn newydd o'r Cwpan Celtaidd gyda Ffrainc yn ei ehangu i 6 gwlad. Roedd y tîm dros 60 oed yn hynod o anlwcus i beidio â dod i'r brig ar ôl dwy gêm agos iawn yn erbyn Ffrainc lle byddai gemau cyfartal wedi bod yn ganlyniadau teg.

**Dros 60:** v yr Alban 1-1, v Ffrainc 1-2, v Gwlad Belg 1-0, Gêm Derfynol v Ffrainc 0-1

**Dros 65:** v Iwerddon 1-2, v Ffrainc 1-1, 3/4ydd safle v Sbaen 1-0

**Dros 70:** v Sbaen 1-2, v yr Alban 1-3, 5/6ed safle v Iwerddon wedi'i ildio

**Cystadleuaeth 4 Gwlad Prydain ac Iwerddon, Abertawe – Mai 2023**

Roedd hwn eto yn dwrnamaint ardderchog i'r tîm dros 60 oed oedd yn agosach at dîm Lloegr na'r hyn mae'r sgôr yn ei awgrymu mewn gêm derfynol i bob pwrpas. Gwelwyd yma hefyd y categori dros 75 oed am y tro cyntaf erioed yng Nghystadleuaeth 4 Gwlad Prydain ac Iwerddon a fydd, gobeithio, yn cynnwys yr Alban ac Iwerddon yn y dyfodol.

**Dros 60:** v Iwerddon 2-0, v yr Alban 2-0, v Lloegr 0-2, 2il Safle

**Dros 65:** v Iwerddon 0-1, v yr Alban 1-7, v Lloegr 0-4, 4ydd Safle

**Dros 70:** v Iwerddon 5-0, v yr Alban 1-2, v Lloegr 1-4, 3ydd Safle

**Dros 75:** v Lloegr 0-5, v Lloegr 0-3, 2il Safle

**Cystadleuaeth 4 Gwlad Prydain ac Iwerddon, Belfast – Mai 2023**

**Dros 40:** v yr Alban 3-5, v Lloegr 0-4, v Iwerddon 0-2, 4ydd Safle

**Dros 50:** v yr Alban 0-3, v Lloegr 0-6, v Iwerddon 0-3, 4ydd Safle



**Cystadleuaeth 4 Gwlad Prydain ac Iwerddon, Southgate – Mehefin 2023**

**Dros 35:** v Lloegr 0-1, v Iwerddon 3-7, v yr Alban 4-2, 3ydd Safle

**Dros 45:** v Lloegr 1-10, v Iwerddon 0-4, v yr Alban 1-2, 4ydd Safle

**Dros 55:** v Lloegr 1-2, v Iwerddon 3-2, v yr Alban 0-3, 3ydd Safle

**Pencampwriaethau Ewropeaidd, Valencia - Mehefin 2023**

**Dros 65:** Pŵl v yr Alban 0-1, v Gwlad Belg 0-1, v yr Iseldiroedd 0-1, v Ffrainc 0-0

Trawsgroesiad v Iwerddon 1-0, 5/6ed safle v Gwlad Belg 1-2, 6ed Safle allan o 10

**Dros 70 oed:** Pŵl v Gwlad Belg 4-0, v Sbaen 1-1, v Lloegr 1-4, v Ffrainc 2-0

Trawsgroesiad v Iwerddon 7-0, 5/6ed safle v yr Almaen 0-2, 6ed safle allan o 9

**Dros 75:**
Pŵl v yr Iseldiroedd 0-3, v Gwlad Belg 0-0, v yr Almaen 1-2, v Lloegr 0-7, 5ed safle allan o 5

Fel Pencampwyr presennol y Byd roedd gan y tîm dros 70 darged ar eu cefnau a doedd cyfuniad o anafiadau a gwres eithafol ddim yn helpu eu hachos. Roedd gêm gyfartal yn erbyn Sbaen yn y gemau pŵl yn golygu y byddai lle yn y rownd gyn-derfynol yn dibynnu ar wahaniaeth goliau a chafodd canlyniad positif o 4-0 i Gymru yn erbyn Ffrainc ganol dydd ei ragori gan Sbaen yn eu gêm ddilynol yn erbyn Gwlad Belg am 4pm - amser tipyn oerach o'r dydd. Siomedig, ond gyda mewnlifiad o chwaraewyr 'ifanc' mae'n edrych yn addawol o ran amddiffyn Cwpan y Byd yn Cape Town ym mis Hydref 2024.

**Pencampwriaethau Ewropeaidd, Nottingham - Gorffennaf 2023**

**Dros 35:** Pŵl v Ffrainc 6-3, v Lloegr 0-2, v Sbaen 2-5, v yr Alban 2-3, v yr Almaen 2-2 , 5/6ed Safle v Ffrainc 2-3, 6ed safle allan o 6

**Dros 40:**
Pŵl v Ffrainc 3-2, v Lloegr 1-10, v yr Almaen 3-5, v yr Alban 1-1, Rownd gyn-derfynol v yr Almaen 2-5, 3/4ydd v Ffrainc 1-7, 6ed safle allan o 7

**Dros 45:** Pŵl v yr Almaen 2-2, v yr Alban 2-2, v Iwerddon 2-2, v yr Iseldiroedd 1-8, v Lloegr 0-8, v Ffrainc 2-2, 5/6ed safle v Iwerddon 2-6, 6ed safle allan o 7

**Dros 50:** Pŵl v yr Iseldiroedd 1-5, v Ffrainc 1-3, v yr Alban 3-3, Gêm chwarter olaf v Lloegr 2-7, Dosbarthiad v Ffrainc 1-6, 7/8fed safle v yr Eidal 4-1, 7fed safle allan o 8

**Pencampwriaethau Ewropeaidd, Valencia - Mehefin 2023**

**Dros 55:** Pŵl v yr Almaen 2-3, v yr Alban 1-0, v Iwerddon 1-0, v Sbaen 1-1, 3/4ydd safle v Lloegr 0-1, 4ydd safle allan o 9

**Dros 60:** Pŵl v yr Alban 1-4, v yr Iseldiroedd 2-2, v yr Eidal 0-0, v Iwerddon 3-0

7/8fed safle v Sbaen 1-3
8fed safle allan o 10

**Tîm dros 60 oed Cymru v yr Iseldiroedd, Caerdydd – Hydref 2023**

**Dros 60 oed:** v yr Iseldiroedd 0-3 a 2-3

**Tîm dros 75 oed 4 Gwlad, Caerdydd – Mawrth 2024**

**Dros 75:** v Lloegr 0-2, v Gwlad Belg 0-0, v yr Iseldiroedd 0-2 3ydd Safle




**Twrnamaint Dan Do Meistri'r Byd, Nottingham – Mawrth 2024**

Cynhaliwyd Twrnamaint Dan Do cyntaf erioed Meistri'r Byd yn Nottingham dros y Pasg a hynny i Ddynion a Merched. Roedd hwn yn dwrnamaint hynod boblogaidd a fwynhawyd yn fawr gan y chwaraewyr a'r gwylwyr fel ei gilydd. I'r Cymry, roedd hwn yn ymddangosiad cyntaf gwych ar lwyfan y Byd.

Dylid canmol y tîm dros 55 oed yn arbennig ar ôl iddo lwyddo i ennill y fedal arian – dim ond y pedwerydd tro i fedal o unrhyw liw i Ddynion Cymru ei hennill mewn unrhyw Gwpan y Byd. Daeth y tîm dros 55 yn ail yn ei grŵp ar ôl colli 4-9 i'r Almaen a churo Gwlad Belg a Sbaen 2-0 ac 8-4 yn y drefn honno. Dim ond cychwyn oedd hyn! Ar ôl ildio 3-0 yn erbyn Lloegr hanner ffordd drwy'r ail chwarter yn y rownd gyn-derfynol, brwydrodd Cymru yn ôl gan guro enillwyr Pŵl A 4-3. Bu bron i ail wyrth ddigwydd eto yn y rownd derfynol yn erbyn yr Iseldiroedd. Ar ôl dechrau hyd yn oed gwaeth yn erbyn yr Iseldiroedd lle'r oeddent yn colli 3-0 ar ôl 4 munud, fe ddangosodd Cymru ysbryd rhyfeddol wedyn i frwydro yn ôl i 3-3 gyda'u sbri eu hunain o 3 gôl mewn 6 munud, ond roedd yr Iseldiroedd ar y blaen eto oedd yn golygu mai 4-3 oedd y sgôr ar ddiwedd yr ail chwarter. Ac, yn anarferol i gêm dan do, dyna sut yr arhosodd pethau heb unrhyw goliau yn yr 20 munud olaf. Fodd bynnag, yn siomedig gan y gallai fod wedi'i osod yng nghyd-destun canlyniadau eraill – roedd yr Iseldiroedd wedi curo'r Almaen 7-4 yn y rownd gyn-derfynol arall a'r Almaen wedyn wedi curo Lloegr 11-4 yn y gemau ailgyfle 3/4ydd safle. Dyma oedd perfformiad gwirioneddol wych gan y tîm dros 55 o Gymru.

**Dyma'r garfan:**

*Ant Colclough (Capten), Jon Short (Gôl-geidwad), Neil Baldwin, Andy Burrough, Mickey Colclough, Clive Colloff, Neil Farquharson, Enzo Favro, Ali Hall, Dave King, Wyn Sleeman*

Gwelwyd perfformiadau gwych hefyd gan y ddau grŵp oedran arall i gyrraedd eu rowndiau cyn-derfynol. Cafodd y tîm dros 60 gêm gyfartal gyda'r Swistir, fe wnaethant guro UDA 5-4 a cholli 3-0 yn erbyn yr Iseldiroedd. Roedd yr Almaen yn rhy gryf yn y rownd gyn-derfynol gan ennill 5-1, fel y gwnaeth Lloegr yn y gêm ail gyfle 3/4ydd safle gan ennill 6-1. Dylid cyfeirio'n arbennig at Andy Rhys-Jones a sgoriodd 11 o 12 gôl Cymru.



Fe wellodd y tîm dros 35 yn anhygoel ar ôl colli eu gêm gyntaf yn erbyn yr Almaen 1-21 i guro UDA 9-8 a Ghana 8-1 ond colli 5-6 yn erbyn yr Alban. Colli oedd eu hanes wedyn 4-8 yn erbyn yr Alban yn eu rownd gyn-derfynol a chael gêm gyfartal 3-3 gydag UDA yn y gêm 3/4ydd safle cyn colli 0-2 yn yr ornest o'r smotyn. Unwaith eto, dylid cyfeirio'n arbennig at Ben Croxall (11) a Tim Jones (9) a sgoriodd ddwy ran o dair o goliau Cymru rhyngddynt.

Dau ganlyniad agos yn y pŵl wnaeth ddim gweithio o blaid Cymru yn y pen draw - 6-6 yn erbyn Canada a 5-6 yn erbyn Guyana, cyn colli 2-12 i Loegr, gyda'r tîm dros 45 yn mynd i'r gemau ail gyfle 5-8fed safle.

Yma fe wnaethant lwyddo i drechu Bangladesh 5-4 ac Awstria 7-5 i ddod yn 5ed gyda Dan Makaruk yn sgorio 9 gôl.

Cafodd y tîm dros 50 ddechrau da gyda buddugoliaeth 7-2 dros UDA, ond wedyn colli 3-8 i'r Iseldiroedd a 3-7 i Loegr. Collwyd 4-7 yn erbyn yr Eidal yn y gêm gyntaf yn y gemau ail gyfle 5-8fed safle ond daeth Cymru yn ôl i guro UDA eto 4-3 i sicrhau'r 7fed safle gyda'r capten Joergen Jaehnig yn sgorio 9 gôl.

Felly twrnamaint gwych yn gyffredinol i Gymru gyda medal arian i goroni'r cyfan, chwaraewyr newydd yn ymuno nad oedd erioed wedi chwarae i ni y tu allan, a chyfle i chwarae yn erbyn gwledydd nad oedden ni erioed wedi cwrdd â nhw o'r blaen fel Bangladesh, Guyana a Ghana. Mae'r posibilrwydd o ennill Cwpan Ewropeaidd yn 2025 yn rhywbeth y bydd pawb sy'n cymryd rhan yn Nottingham yn edrych ymlaen ato.

Beth bynnag fo'r canlyniadau, y neges barhaus o dymor 2023/24 oedd bod gennym feincnod clir ar ôl Covid o'n sefyllfa bresennol a'n bod yn gweithio'n galed i roi cynlluniau ar waith i ddatblygu ar gyfer y dyfodol, a pharhau i chwarae mewn twrnameintiau boed hynny mewn gemau rhyngwladol neu mewn gemau cyfeillgar, gan fwynhau bod yn gystadleuol a ffurfio cyfeillgarwch wrth chwarae hoci Meistri.



# ADRODDIAD MEISTRI MERCHED CYMRU TYMOR 2023 – 2024

Dechreuodd y treialon ar gyfer tymor 2023 ym mis Tachwedd / Rhagfyr 2022 ac mae'r presenoldeb yn y treialon yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn gyda rhai grwpiau oedran bron ar fin cyflwyno ail dîm yn nhwrnameintiau Ysbryd y Meistri sy'n cael eu cynnal ochr yn ochr â'r holl brif gystadlaethau. Mae'n ymddangos bod y gronfa o chwaraewyr yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, oherwydd bod chwaraewyr yn chwarae'n hwyrach mewn bywyd i allu chwarae mewn hoci Meistri ac rydym hefyd yn gweld chwaraewyr yn dod yn ôl i'r gêm ar draws pob grŵp oedran, ond yn rhyfeddol yn y grŵp 65 oed, sydd wedi caniatáu i ni ffurfio ein tîm 65 oed cyntaf ar gyfer y tymor hwn.

Rydym yn parhau i gael ein cefnogi gan amrywiaeth eang o Hyfforddwyr, Rheolwyr, Meddygon, Dyfarnwyr a swyddogion technegol sy'n rhoi llawer o amser ac ymdrech sy'n cael eu hunangyllido i sicrhau llwyddiant a chynnydd ein timau Meistri Merched, gyda rhai'n teithio cryn bellter i fynychu treialon a hyfforddiant yng Nghymru. Mae lefel profiad, sgil a phroffesiynoldeb y grŵp cefnogi hwn o'r radd flaenaf ac ni fyddai Hoci Meistri i Ferched yn bosibl hebddynt.

Yn ystod tymor 2023 fe wnaethom ddechrau rhannu grwpiau oedran y merched yn ddyddiadau a lleoliadau ar wahân ar gyfer yr holl gystadlaethau, a chymaint yw llwyddiant hoci Meistri yng Nghymru fel bod nifer o wahoddiadau ar gyfer twrnameintiau newydd, fel yr un 35 oed i 45 oed, yn dod i chwarae mewn twrnamaint sy'n cael ei gynnal gan Hoci Gibraltar a'n grwpiau oedran hŷn yn cael eu gwahodd i chwarae mewn twrnamaint pedair gwlad yn yr Almaen. Rydym hefyd yn cael ein gwahodd i chwarae mewn llawer o wahanol dwrnameintiau ledled y DU wrth i hoci meistri ar bob lefel o'r gêm barhau i dyfu gyda thimau rhyngwladol yn cael eu gwahodd i dwrnameintiau cartref i godi proffil y twrnamaint.

Cynhaliwyd twrnamaint Prydain Fawr ac Iwerddon (Gwledydd Cartref) ar gyfer y grwpiau




oedran 35 i 45 yn Abertawe, a chawsom gefnogaeth dda gan Hoci Cymru i drefnu a chynnal y twrnamaint a fu'n llwyddiant ysgubol. Ar draws y grwpiau oedran cafwyd rhai buddugoliaethau da a gemau agos iawn.

Teithiodd y grwpiau oedran hŷn, 50 i 65 oed, i Glasgow ar gyfer eu twrnamaint ac eto cafwyd digon o fuddugoliaethau, rhai colledion, a gemau agos iawn. Roedd y tywydd yn Glasgow yn afresymol o boeth a oedd yn gwneud yr amodau chwarae yn eithaf caled, yn enwedig yn ystod y gemau canol dydd, ond roedd y twrnamaint wedi'i drefnu'n dda a chafodd egwyliau dŵr ychwanegol eu cynnwys yn y gemau.

Cynhaliwyd twrnamaint Ewropeaidd y grwpiau oedran 35 i 50 oed yn Nottingham. Yn anffodus roedd y ceisiadau o wledydd eraill ar gyfer y grŵp 40 oed yn wael iawn, a arweiniodd at benderfynu tynnu'r grŵp oedran hwnnw o'r twrnamaint oherwydd diffyg cystadleuaeth. Cafodd y grwpiau oedran eraill dwrnamaint da eto gyda chymysgedd o ganlyniadau gyda'r 35 oed yn colli cyfle am fedalau o drwch blewyn.

Teithiodd y tîm 55 i 65 oed i Valencia ar gyfer eu twrnamaint Ewropeaidd a gynhaliwyd yn ystod tywydd eithriadol boeth yn Ewrop, gan wneud yr amodau chwarae'n heriol iawn. Gweithiodd pob tîm yn galed yn ystod y twrnamaint gyda'r rheolwyr a meddygon yn rheoli'r effeithiau gwres ar y chwaraewyr yn dda iawn. Gorffennodd y grŵp 55 oed yn 5ed yn eu grŵp gyda'r grŵp 60 oed wedi colli cyfle i gipio'r fedal Efydd o drwch blewyn. Ond, yn eu blwyddyn gyntaf, llwyddodd y grŵp 65 oed i ddod adref gyda'r fedal Efydd drwy drechu'r Iseldiroedd mewn gêm galed.

**Enillwyr medal Efydd Ewropeaidd dros 60 oed yn Valencia**: *Rhes gefn O'r chwith i'r dde Y Rheolwr Lynn Smith (Rheolwr), Pat Holloway, Jo Price, Bernie Bettison (Capten), Janet Millar, Heather Gwyn-Phillips, Kerin Bowen, Titch Price, Gaynor Girak, Jane Hitchings Front row. Gaynor Nash, Lynne Morgan, Jan Poulton, Judith Williams, Jane Bailey, Sherry Shawcross, Brenda Goodfellow, Hilary Hooper-williams (Hyfforddwr) Sue Morley*


















# CYSTADLAETHAU 2023/2024

**Cystadlaethau Clwb**

Merched Dan Do: *Abertawe*

Dynion Dan Do:
*Caerdydd*
*A'r Met*

Pencampwriaeth Y Merched:
*Abertawe*

Pencampwriaeth Y Dynion:
*Caerdydd A'r Met*

Tlws Y Merched *I*Dinas Bangor*

Tlws Y Dynion:
*Prifysgol Caerdydd*

Her Y Merched:
*Abergwaun*
*A Gwdig*

Her Y Dynion: *Caerdydd A'r Met*

Pencampwriaeth Meistri'r
Merched: *Penarth*

Tlws Meistri'r Merched: *Wrecsam*

Meistri'r Dynion:
*Caerdydd*
*A'r Met*

**Cystadlaethau Ieuenctid**

D18 Merched: *Abertawe*

D18 Bechgyn : *Abertawe*

D16 Merched: *Penarth*

D16 Bechgyn: *Northop Hall*

D14 Merched: *Yr Eglwys Newydd*

D14 Bechgyn: *Yr Eglwys Newydd*

D12 Merched: *Yr Eglwys Newydd*

D12 Bechgyn: *Yr Eglwys Newydd*

**Cystadlaethau Ewrohoci**

Tlws Clwb EwroHoci I 2023
Dynion: *Caerdydd a'r Met,*
*safle 1af*

Her Clwb EwroHoci II 2023
Merched: *Abertawe, safle 1af;*
*Penarth 6ed safle*

Tlws Clwb EwroHoci II 2023
Dynion: *Abertawe, 7fed safle*

Her Clwb Dan Do EwroHoci I
Dynion 2024: *Caerdydd a'r Met,*
*5ed safle*

Tlws Clwb Dan Do EwroHoci
Merched 2024: *Merched*
*Penarth, 8fed safle*

**Cystadlaethau Ysgol**

D18 Merched Ysgol:
*Ysgol Glantaf*

D18 Bechgyn Ysgol:
*Rydal Penrhos*

D16 Merched Ysgol:
*Ysgol y Gadeirlan*

D16 Bechgyn Ysgol:
*Llandeilo Ferwallt*

D14 Merched Ysgol:
*Ysgol Howell's*

D14 Bechgyn Ysgol:
*Ysgol Brynhyfryd*

D12 Merched Ysgol:
*Ysgol Botwnnog*

D12 Bechgyn Ysgol:
*Ysgol Brynhyfryd*

# PRIF YSTADEGAU CYSTADLAETHAU 2023/2024

| CYFANSWM Y CYSTADLAETHAU A GYDLYNWYD | NIFER Y TIMAU GYSTADLODD | NIFER Y CHWARAEWYR GYMERODD RAN | NIFER Y GEMAU A GYNHYRCHWYD | CYFANSWM Y MUNUDAU O HOCI |
|---|---|---|---|---|
| 27 | 355 | 5,086 | 485 | 16,410 |

## CLWB YSTADEGAU 2023/2024

| CYFANSWM Y CYSTADLAETHAU A GYDLYNWYD | NIFER Y TIMAU GYSTADLODD | NIFER Y CHWARAEWYR GYMERODD RAN | NIFER Y GEMAU A GYNHYRCHWYD | CYFANSWM Y MUNUDAU O HOCI |
|---|---|---|---|---|
| 19 | 149 | 2,240 | 249 | 12,340 |

## YSGOL YSTADEGAU 2023/2024

| CYFANSWM Y MUNUDAU O HOCI | NIFER Y TIMAU GYSTADLODD | NIFER Y CHWARAEWYR GYMERODD RAN | NIFER Y GEMAU A GYNHYRCHWYD | CYFANSWM Y MUNUDAU O HOCI |
|---|---|---|---|---|
| 8 | 206 | 2,846 | 236 | 4,070 |

# PARTNERIAETHAU



# PARTNERIAID

## Hoffem ddiolch i'n Partneriaid, Cyflenwyr a Noddwyr am eu cefnogaeth

Diolch unwaith eto i Irfon Bennett am gipio cymaint o eiliadau bendigedig ar gamera.

**CEFNOGAETH**

**Cynghrair Dan Do De Cymru**

**252**

**O AELODAU**

**RAFFL FISOL**

| 48 | 33 | 15 |
|---|---|---|
| O RAFFLAU MISOL | O ENILLWYR UNIGOL | O ENILLWYR CLWB |

Cefnogir Cyfeillion Hoci Cymru fel elusen gan y cronfeydd canlynol:

**Cronfa Dadds Higgins**

**Cronfa Peter English ar gyfer Llysgenhadon Ifanc**

**Cronfa Alan Carter ar gyfer Dyfarnwyr a Swyddogion**

Mae gan ein cyfrif x ni
**344 o ddilynwyr**
**@Friends of WH**

Mae ein tudalen Facebook ni wedi cael ei
**hoffi gan 781 o bobl ac mae ganddi 800 o ddilynwyr**
**Cyfeillion Hoci Cymru**

Mae gan ein cyfrif Instagram ni
**380 o DDILYNWYR a 277 o BOSTIADAU**
**friends_of_wh**

**www.friendsofwelshhockey.org.uk**

Rhif Elusen: 1140894

# DIOLCH

**Hoci Cymru Adroddiad Blynyddol 2023/24**
Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu tuag at yr adroddiad blynyddol ac i'r teulu hoci am eich cefnogaeth barhaus. Am fwy o wybodaeth neu i gymryd rhan, ewch i:

For more information or to get involved go to:

**www.hockeywales.org.uk**

@HockeyWales

@Hoci_Cymru

Hoci Cymru

Or email us at: info@hockeywales.org.uk

**Hoci Cymru**
Sport Wales National Centre, Sophia Gardens, Cardiff, CF11 9SW.